

## 2018 Rhif 697 (Cy. 135)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

#### Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Garth, Powys) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2018

*Gwnaed* 6 Mehefin 2018

*Yn dod i rym* 11 Mehefin 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A483, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(c), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Garth, Powys) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2018 a daw i rym ar 11 Mehefin 2018.

#### 2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

- unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);
- unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro

- 
- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o lloedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lloedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion; ac

ystyr “lloedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lloedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lloedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### **Cyfyngiad**

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd yn Garth, Powys sy'n ymestyn o bwynt 84 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Llais yr Afon hyd at bwynt 130 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

### **Cymhwys**

4. Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'i dangosir gan arwyddion traffig.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

6 Mehefin 2018

*Richard Morgan*

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru